# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Mercher, 22 Ionawr 2025 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, James Elson, Bobby Feeley, Carol Holliday, Arwel Roberts a/ac Mark Young (Is-Gadeirydd)

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes/ Swyddog Monitro (GW); Pennaeth Cyllid/ Swyddog Adran 151 (LT); Prif Archwilydd Mewnol (BC); Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol – Perfformiad, Digidol ac Asedau (HV-E); Rheolwr Mewnwelediad, Strategaeth a Chyflawni (RL), Gwesteiwr Zoom (NH); a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (RhTJ).

Y Cynghorydd Gwyneth Ellis – Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol

Cynrychiolydd Archwilio Cymru – Mike Whiteley

Cynrychiolydd CLlLC – Lyndan Puddy

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd James Elson, a ymunodd â'r cyfarfod yn ddiweddarach.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cadeirydd, yr Aelod Lleyg David Stewart, gysylltiad personol mewn perthynas ag eitemau rhif 5 a 6 ar y rhaglen, gan ei fod yn derbyn pensiwn Cronfa Bensiynau Clwyd.

Datganodd yr Aelod Lleyg, Paul Whitham, gysylltiad personol mewn perthynas ag eitemau rhif 5 a 6 ar y rhaglen, gan ei fod yn derbyn pensiwn Cronfa Bensiynau Clwyd.

Datganodd yr Aelod Lleyg, Nigel Rudd gysylltiad personol gan ei fod yn aelod o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Datganodd y Cynghorydd Ellie Chard gysylltiad personol mewn perthynas ag eitemau rhif 5 a 6 ar y rhaglen, gan ei bod yn derbyn pensiwn Cronfa Bensiynau Clwyd, yn ogystal â chysylltiad personol ag eitem rhif 9 ar y rhaglen gan ei bod yn llywodraethwr.

## 3 MATERION BRYS

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2024 i'w hystyried.

Materion cywirdeb –

- Tudalen 9 – cyfeiriad at y rhaglen waith; dylai nodi, 'dywedodd y Cadeirydd David Stewart fod y rhaglen waith sydd wedi'i chynnwys ar y rhaglen yn wahanol i'r hyn a adroddwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y pwyllgor; a oedd wedi'i ail-raddnodi er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â busnes arall y Cyngor.
- Ar dudalen 9, roedd cyfeiriad at archwilio. Dylai'r dedfrydau fod wedi cyfeirio at archwiliad Cymru er mwyn sicrhau gwahaniaethu rhwng y tîm archwilio mewnol ac archwilwyr allanol y Cyngor Archwilio Cymru.
- Tudalen 9, dylai'r paragraff olaf nodi, "Yn anffodus, nid oedd y tîm cyllid wedi llwyddo i recriwtio hyd yma, a oedd hefyd yn broblem.
- Yn y trydydd paragraff ar dudalen 10, cywirodd y cadeirydd nad oedd yn amau enw da'r awdurdod; yr hyn a olygai oedd y gallai unrhyw oedi achosi risg i enw da'r awdurdod.

Materion yn codi –

- Dywedodd y cadeirydd y gellid trafod unrhyw faterion cysylltiedig â chyllidebu gyda'r eitemau perthnasol.
- Tudalen 8 – Holodd yr aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cyd-bwyllgorau corfforedig ac a allai aelodau lleyg fod ar y cyd-bwyllgor corfforedig. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes wedi holi'r awdurdod arweiniol ynglŷn â'r mater; ond, nid oedd wedi derbyn ymateb.
- Tudalen 9 – Cynhaliwyd rhag-gyfarfodydd mewn perthynas â'r rhaglenni gwaith, ac roeddent yn gweithio'n dda. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol:  Llywodraethu a Busnes fod trafodaethau a chyfarfodydd yn mynd rhagddynt gyda swyddogion allweddol o ran y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw waith yn cael ei golli.
- Tudalen 10 – Cyfeiriwyd at bwysau gyda'r tîm cyllid a beth oedd y wybodaeth ddiweddaraf. Eglurodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio (Swyddog Adran 151) fod y materion a'r gwaith recriwtio yn parhau.
- Cyfeiriwyd at gyflwyno system gyllid newydd ac fe ofynnwyd a fyddai modd i'r tîm cyllid gael ymarfer ffug gyda chau cyfrifon. Roedd ffocws ar y llwyth gwaith, ond nid ymarfer ffug fel y cyfryw.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2024, fel cofnod cywir o'r trafodaethau.*

## 5 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol y wybodaeth ddiweddaraf am Archwilio Mewnol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Roedd yr adroddiad yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol, o ran darpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth ysgogi gwelliant.

Mae'r adroddiad yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith Archwilio Mewnol sydd wedi'i gwblhau ers yr adroddiad diweddaru diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Medi 2024; ers diweddariad diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi, cwblhawyd wyth adroddiad archwilio mewnol- mae dau wedi cael sgôr sicrwydd uchel, tri wedi cael sgôr sicrwydd canolig a thri heb eu sgorio oherwydd eu bod yn destun adolygiadau ar hyn o bryd.

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un heriol i'r tîm Archwilio Mewnol oherwydd nifer o ffactorau y tu hwnt i'w reolaeth, gan gynnwys:-

- Hyd yma, mae tri chwyn rhannu pryderon wedi'u derbyn. Yn dilyn trafodaethau cychwynnol gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Llywodraethu a Busnes, mae'r tîm Archwilio Mewnol wedi cynnal dau ymchwiliad, a bydd y gwasanaeth yn cynnal yr ymchwiliad arall.
- Bu i dri aelod o'r tîm wirfoddoli i gefnogi'r gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol i gyflwyno'r gwasanaeth gwastraff newydd
- Cafwyd nifer anarferol o uchel o absenoldebau oherwydd salwch rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2024, a arweiniodd at golli 136 o ddiwrnodau, ac
- Yn olaf, bu i un o'r Uwch Archwilwyr Llwybr Gyrfa ymddiswyddo ar 25 Tachwedd 2024, ac mae hynny wedi effeithio ar y cynllun, oherwydd bod un archwilydd yn llai gan y tîm archwilio bellach.

Ers mis Ebrill 2024, mae dau ymchwiliad arbennig wedi profi'n heriol a thrwm iawn o ran adnoddau Archwilio Mewnol. Oherwydd cymhlethdod un o'r cwynion, rydym wedi gohirio'r ymchwiliad, gan fod angen i ni ddatrys ffactorau ychwanegol yn gyntaf, cyn y gallwn gwblhau ein hymchwiliad. Mae'r ail ymchwiliad wedi'i gwblhau bellach, ac mae adroddiad wedi'i lunio.  Bu i'r Prif Archwilydd Mewnol gwrdd â'r Pennaeth Gwasanaeth ac AD ar 16 Ionawr 2025 ynghylch yr ymchwiliad.

Yn dilyn y cyflwyniad gan y Prif Archwilydd Mewnol, trafododd y pwyllgor y pwyntiau canlynol ymhellach –

- Mynegodd y pwyllgor bryderon ynghylch lefelau staffio o fewn y tîm archwilio ac a fyddai hynny'n cael effaith ar lwyth gwaith cynlluniedig y tîm. Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol fod yna gynlluniau wrth gefn bob amser ar gyfer y llwyth gwaith archwilio mewnol. Roedd 60/80 diwrnod o salwch wrth gefn; ond, roedd y niferoedd yn uwch na hyn. Fodd bynnag, roedd y Prif Archwilydd Mewnol yn hyderus bod modd i staff gynnal y gwaith a chwblhau mwy o'r gwaith yr oeddent wedi'i gynllunio.
- Mewn ymateb i ymholiadau yn ymwneud â'r ddau ymchwiliad a gynhaliwyd, dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol eu bod dal yn breifat ac felly na ellid eu trafod ar hyn o bryd; fodd bynnag, byddai modd rhannu rhagor o fanylion unwaith y byddai'r ymchwiliadau wedi dod i ben.

- Cyfeiriodd yr aelodau at y posibilrwydd o hurio arbenigedd i gynorthwyo'r tîm archwilio, a oedd yn ei chael hi'n anodd cyflawni'r cynllun archwilio oherwydd salwch. Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol ei fod yn cael trafodaethau cyson â’r pennaeth gwasanaeth perthnasol ac mai staffio oedd y brif flaenoriaeth. Ailddatganodd y Prif Archwilydd Mewnol fod ganddo hyder yn ei dîm i gwblhau'r gwaith yn y meysydd gofynnol i ddarparu sicrwydd o ran trefniadau llywodraethu’r gwasanaethau hynny a’r Cyngor.
- Roedd yr aelodau’n deall y cynllun; fodd bynnag, teimlwyd bod y targed yn uchel ac y gellid ystyried peidio â’i gyrraedd fel methiant. Fe wnaethant awgrymu y dylid sefydlu’r cynllun ar lefel resymol.
- Bu i rai aelodau grybwyll eu bod eisiau trafod materion yn ymwneud â’r ymchwiliad parhaus. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes, pe bai’r pwyllgor yn dymuno trafod y materion, yna byddai angen iddynt eu trafod mewn fforwm caeëdig (rhan 2). Cytunodd yr aelodau i drafod y mater ar ddiwedd y cyfarfod, er mwyn lleihau unrhyw darfu ar y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD***

1. *Bod y pwyllgor yn ystyried yr adroddiad a’r cynnwys ac yn asesu cynnydd a pherfformiad yr Adain Archwilio.*
2. *Nid oedd y pwyllgor eisiau unrhyw sicrwydd pellach a thrafododd y meysydd a gafodd eu harchwilio.*

## 6 STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio, ynghyd â’r Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025/26 ac Adroddiad Diweddaru Reoli'r Trysorlys Ch3 2024/45 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Mae'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn dangos sut y byddai'r Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau am y flwyddyn i ddod. Mae hefyd yn pennu'r polisïau y mae'r swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn eu dilyn wrth weithredu. Mae’r Adroddiad Diweddaru ar Reoli’r Trysorlys yn rhoi manylion gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod chwarter 3 2024/25.

Roedd y Cyngor yn gyfrifol am ei benderfyniadau a’i weithgareddau Rheoli Trysorlys, a oedd yn cynnwys gofalu am arian parod y Cyngor. Roedd hyn yn rhan hanfodol o waith y Cyngor gan fod tua £0.5 biliwn yn mynd drwy gyfrif banc y Cyngor bob blwyddyn.

Mae graffiau’r adroddiad yn dangos lefelau balansau benthyca a buddsoddi’r Cyngor dros y tair blynedd diwethaf. Mae’r siart gyntaf yn dangos cynnydd yn y swm y mae’r Cyngor wedi’i fenthyca dros y cyfnod hwn. Mae’r ail siart yn dangos gostyngiad yn y swm o arian sydd ar gael i’w fuddsoddi. Mae’r ddau’n cyd-fynd â’r rhagolygon ac wedi’u cysylltu’n uniongyrchol â Chynllun Cyfalaf y Cyngor.

Gan gyfeirio at yr adroddiad diweddaru ar Reoli’r Trysorlys, rhoddodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio rywfaint o gefndir i’r adroddiad, cyn rhoi cyfle i’r aelodau ofyn cwestiynau: Byddai’r effaith ar y DU o Gyllideb yr Hydref y Llywodraeth, toriadau

cyfraddau llog arafach, twf economaidd cymharol wannach dros y tymor canolig, yn ogystal ag effaith ail dymor yr Arlywydd Trump yn ei swydd ac ansicrwydd ynghylch polisi domestig a thramor yr Unol Daleithiau, yn cael dylanwad sylweddol ar Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2025/26. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau hefyd y byddai'r adroddiad rheoli'r trysorlys nesaf yn cael ei drafod yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Ebrill.

Trafododd yr Aelodau'r materion canlynol ymhellach -

- Tynnodd yr aelodau sylw at y graff yn Atodiad Un, a oedd yn dangos cynnydd yn 2066; Ymatebodd swyddogion drwy ddweud bod y mater yn ymwneud yn ôl â 2015/16 a phrynu allan y cymhorthdal stoc tai, sef rhyddhau cronfa'r Cyfrif Refeniw Tai o dalu'r cymhorthdal i lywodraeth ganolog, a rhyddhau arian i wella ansawdd y stoc dai.
- Teimlai'r Aelod Lleyg, Nigel Rudd, fod rhywfaint o fylchau rhwng strategaeth y Cyngor, gwaith rhaglennu a Rheoli'r Trysorlys. Yn sylfaenol, roedd gallu benthyca er mwyn ariannu gwaith cyfalaf yn hollbwysig. Cafodd y penderfyniadau hynny effaith sylweddol ar gyfrif refeniw'r awdurdod, a byddaf yn trafod hyn eto yn yr eitem nesaf: y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sef yr awdurdod dirprwyedig i adolygu ar ran trefniadau rheoli trysorlys y Cyngor. Teimlai'r Aelod Lleyg, Nigel Rudd fod angen rhoi sylw i'r bylchau yn y broses. Mewn ymateb i'r ymholiad, fe hysbyswyd yr aelodau gan y Pennaeth Cyllid ac Archwilio fod y grŵp craffu cyfalaf yn trafod materion cyfalaf; roedd ambell aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn aelodau; roeddent yn mynd trwy fanylion pob achos ac effaith costau refeniw; roedd y cwestiwn yn sicrhau trafodaeth bellach rhwng y Pennaeth Cyllid ac Archwilio a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes; er mwyn sicrhau bod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fwy o gefndir ynghylch materion trysorlys o fewn y Cyngor. Ymatebodd yr Aelod Lleyg, Nigel Rudd drwy ddiolch i'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio am yr ymateb gan ddweud nad oedd yn dymuno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ymgymryd â'r gwaith o asesu'r rhaglen gyfalaf; fodd bynnag, roedd angen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddarparu elfen o amddiffyniad yn achos penderfyniadau sy'n gysylltiedig â Rheoli Trysorlys. Gofynnwyd hefyd a oedd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Arling Close ynghylch Rheoli Trysorlys. Roedd y mater yn parhau. Mae Arlene Close wedi cysylltu â'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio ac mae'r mater wedi'i ohirio oherwydd llwyth gwaith y Pennaeth Cyllid ac Archwilio, sydd angen ymateb iddynt.
- Codwyd y terfyn benthyca; cafodd benthyciadau dros dro gan awdurdodau eraill eu cynnwys gyda'r terfyn ar fenthyca.
- Cytunodd yr aelodau a'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio y dylai aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn hyfforddiant blynyddol ar Reoli Trysorlys.

Cynigiodd Nigel Rudd ddiwygiad i'r argymhellion yn yr adroddiad: dylai swyddogion ailgyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer ystyried y dewisiadau o ran lefel y wybodaeth ac amseriad penderfyniadau ynghylch y cynllun cyfalaf a'r effaith ar y gyllideb refeniw.

Cytunodd y pwyllgor ar y diwygiad.

***PENDERFYNWYD***

1. *Bod y pwyllgor yn adolygu'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26 a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2025/26, 2026/27 a 2027/28.*
2. *Bod y pwyllgor yn nodi'r adroddiad diweddaru Rheoli'r Trysorlys.*
3. *Bod y pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.*
4. Dylai swyddogion *ailgyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer ystyried y dewisiadau* o ran *lefel y wybodaeth ac amseriad penderfyniadau* y dylid *eu hailgyflwyno* i'r *Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â'r cynllun cyfalaf a'r effaith ar y gyllideb refeniw.*

## 7 DDIWEDDARIAD AM BENNU CYLLIDEB REFENIW 2025/26

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio, ynghyd â'r Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad Gosod Cyllideb Refeniw 2025/26 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Pwrpas yr adroddiad oedd rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Setliad Dros Dro 2025/26 Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer Llywodraeth Leol a'r goblygiadau o ran gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.

Mae diweddariadau ariannol tymor canolig rheolaidd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio trwy gydol y flwyddyn, yn rhan o rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o geisio sicrwydd bod gan y Cyngor brosesau effeithiol a chadarn ar waith ar gyfer gosod cyllidebau cytbwys. Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a phennu lefel Treth y Cyngor sy'n deillio o hynny. Yn ei gyfarfod nesaf ar 18 Chwefror 2025, byddai'r Cabinet yn ystyried adroddiad i osod cyllideb gytbwys a Threth y Cyngor ar gyfer 2025/26. Yna, bydd y Cyngor yn ystyried yr adroddiad hwn yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2025.

Cafodd y Cyngor wybod beth oedd y Setliad Dros Dro ar gyfer 2025/26 ar 11 Rhagfyr 2024. Mae Cyllid Allanol Cyfun dros dro'r Cyngor, sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw a'n cyfran ni o gronfa Ardrethi Annomestig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 yn dod i £215.222 miliwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio tablau fel bod modd cymharu lefelau cyllid 2024/25 a 2025/26 ar draws cynghorau Cymru. Mae ffigwr 2024/25 wedi ei ddiwygio gan Lywodraeth Cymru ers iddo gael ei gyhoeddi gyntaf. Mae cyllid 2025/26 y Cyngor yn cael ei gymharu gyda ffigwr newydd ar gyfer Cyllid Allanol Cyfun 2024/25, sef £205.729 miliwn, a oedd yn gynnydd o £9.493 miliwn neu 4.6%.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol ymhellach –

- Mynegodd yr aelodau bryder bod yr adroddiad yn ymddangos yn fwy cymhleth a thechnegol na'r arfer. Cytunodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio fod yr adroddiadau'n fwy technegol na'r rhai a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol; fodd bynnag, er eglurder, roedd y setliad yn gynnydd o 7%.

- Codwyd y cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG), a gallai'r Cyngor osod cyllideb gytbwys heb wybod faint o arian fyddai'n cael ei roi ar gyfer y costau ychwanegol. Hysbyswyd y pwyllgor gan y Pennaeth Cyllid ac Archwilio fod llywodraethau lleol yn ymwybodol bod rhywfaint o gyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer cyfraniadau YG. Fodd bynnag, nid oedd yn hysbys pryd y byddai'r cyllid yn cael ei ddyrannu a faint fyddai ar gael. Yr un oedd y sefyllfa ag mewn blynyddoedd blaenorol, lle nad oedd y cynnydd mewn pensiynau athrawon yn hysbys. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn atal gosod cyllideb gytbwys.
- Mewn ymateb i ymholiadau am grantiau'n cael eu trosglwyddo am nad ydynt yn cael eu dyrannu'n uniongyrchol i wasanaethau a'u bod yn ehangach eu cwmpas, hysbysodd yr HFA yr aelodau fod meysydd cyfrifoldeb newydd yn y gwasanaethau yn cael eu hariannu gan grant. Roedd y grantiau bellach yn dod i ben ond byddai'r cyfrifoldeb yn parhau gyda'r gwasanaeth, a'r cyllid felly angen aros gyda'r gwasanaeth perthnasol.
- Mewn ymateb i bwyntiau a godwyd ynghylch effaith y toriadau yn y gyllideb ar yr unigolion mwyaf diamddiffyn mewn cymdeithas; roedd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yn deall yr heriau; dyma'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, gan fod angen cynnal y gwasanaethau statudol, a'r dewisiadau anodd oedd dewis pa ddyletswyddau anstatudol fyddai'n caniatáu gwneud toriadau yn y gyllideb.
- Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch graddfeydd cyflog ac a ellid datrys y mater gan ei fod yn rhoi pwysau ar y gyllideb, eglurodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio fod trafodaethau cyson gydag awdurdodau lleol eraill a CLlLC.
- Canmolodd y pwyllgor yr holl weithdai cyllideb a gynhaliwyd yn ddiweddar ar gyfer aelodau etholedig ac aelodau lleyg.
- Awgrymodd y pwyllgor y dylid rhannu'r pwysau cyllidebol yn yr adroddiad yn ôl arbedion statudol ac arbedion anstatudol, er mwyn gwneud y broses yn haws; nid oedd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yn credu y byddai hyn yn bosibl, gan y byddai'n anodd eu pennu'n gywir.
- Mynegwyd pryderon ynghylch effaith refeniw rhaglenni cyfalaf. Rhoddodd yr HFA sicrwydd bod y trafodaethau sydd wedi bod yn mynd rhagddynt gyda'r Grŵp Craffu Cyfalaf a'r Cabinet ynghylch effaith penderfyniadau cyfalaf eleni ar refeniw.
- Tynnwyd sylw at y ffioedd a'r taliadau a godwyd gan y cyngor, ac os oedd gwaith yn mynd rhagddo ar y mater, roedd yr HFA eisiau parhau â'r gwaith hwn, ac roedd meincnodi yn rhan o'r gwaith. Awgrymodd Archwilio Cymru hyn hefyd mewn adolygiad diweddar.
- Trafododd y pwyllgor y capasiti o fewn y gwasanaeth cyllid; rhoddwyd sylw i'r gyllideb yn unig; felly, nid oedd capasiti yn broblem ar hyn o bryd.
- Nid oedd gwybodaeth am ardrethi busnes annomestig cenedlaethol ar gael, ond byddai'n cael ei dosbarthu i aelodau y tu hwnt i'r cyfarfod.
- Holodd y pwyllgor a oedd y gwasanaeth yn paratoi'r gyllideb o fewn yr amserlenni presennol; nid oedd unrhyw bryderon o ran amserlenni presennol y gwasanaeth, ac roedd yna drafodaeth agored barhaus ynghylch y gyllideb. Roedd cyllidebau ysgolion yn cael eu trafod yn fisol mewn cyfarfodydd cabinet yn yr adroddiadau cyllid.
- Cyfeiriodd y pwyllgor at yr awgrym a godwyd yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y llynedd i brofi straen; a oedd gan y gwasanaeth cyllid syniad pryd y gellid cynnal y prawf straen, ailosod y strategaeth ariannol tymor canolig

am y tair blynedd nesaf fyddai'r dewis gorau, gan y byddai’n caniatáu i'r strategaeth fod yn seiliedig arni. Roedd yr adolygiad o wariant gan Lywodraeth y DU yn mynd rhagddo, a chafodd strategaeth ei gosod cyn cynnal yr adolygiad; y cynllun gan y Pennaeth Cyllid ac Archwilio oedd profi’r straen erbyn mis Ebrill 2025.

***PENDERFYNWYD*** *na fyddai’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn darparu unrhyw adborth pellach i’r Cabinet* cyn i *gyllideb 2025/26* gael ei *gosod.*

## 8 ASESIAD PERFFORMIAD PANEL

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau, ynghyd â’r Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yr Asesiad Perfformiad Panel (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Dywedodd y swyddogion fod yr adroddiad ar gyfer darparu adroddiad Asesiad Perfformiad Panel (Atodiad 1), datganiadau ymateb drafft (Adrannau 4.6 a 4.7) a’r Cynllun Gweithredu (Atodiad 2) i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sy’n nodi ymatebion i’r argymhellion yn yr adroddiad Asesiad Perfformiad Panel er mwyn i’r pwyllgor gyflawni eu dyletswyddau dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sef:

1. Cael copi o’r adroddiad (Atodiad 1).
2. Adolygu’r datganiadau statudol y mae’n rhaid i’r Cyngor eu gwneud i ymateb i’r Adroddiad (Adrannau 4.6 a 4.7) a gwneud argymhellion am newidiadau i’r datganiadau fel y mae’n barnu sy’n briodol.
3. Adolygu’r camau gweithredu y mae’r Cyngor yn bwriadu eu cymryd (Atodiad 2) a gwneud argymhellion am newidiadau fel y mae’n barnu sy’n briodol.

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae’n rhaid i brif Gynghorau wneud trefniadau i sicrhau bod Panel a benodwyd gan y Cyngor yn asesu i ba raddau y mae’r Cyngor yn bodloni’r gofynion o ran perfformiad o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredinol olynol (mis Mai 2022 a’r un a ragwelir ym mis Mai 2027); hynny yw, unwaith yn ystod tymor pob Cyngor Sir. Yn ogystal â chyflawni gofyniad statudol, gall Asesiad Perfformiad Panel effeithiol nodi siwrnai gwella’r Cyngor, gan adeiladu ar yr hunanasesiad blynyddol a’i gefnogi i edrych at y dyfodol o safbwynt gwahanol. Mae’r Asesiad Perfformiad Panel wedi rhoi cyfle i brofi meddylfryd, gyda chymheiriaid arbenigol diduedd, sy’n darparu safbwyntiau gwahanol drwy herio annibynnol, gwrthrychol wrth wneud eu hargymhellion. Cynhaliodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru’r Asesiad Perfformiad Panel ar ran Cyngor Sir Ddinbych rhwng 9 a 12 Medi 2024 – yr Asesiad Perfformiad Panel cyntaf yng Nghymru.

Hysbyswyd y pwyllgor o’r datganiad drafft “I ba raddau yr ydym yn derbyn y casgliadau yn yr adroddiad” fel a ganlyn: *“Mae’r Cyngor yn derbyn yr adroddiad a’i gasgliadau. Mae’n nodi y bu’r asesiad yn broses ddefnyddiol ac mae’n gwerthfawrogi mor feddylgar a thrylwyr y bu’r tîm Asesu. Ar gyfer Asesiadau’r dyfodol, byddem yn falch o weld mwy o sôn yn yr adroddiad terfynol am y dystiolaeth a welwyd sydd wedi arwain at bob argymhelliad. Sylw cyffredinol, sy’n adlewyrchu ar draws nifer o’n hymatebion yn y Cynllun Gweithredu, yw yr hoffem*

*fod wedi gweld mwy o bwyslais yn y broses a'r adroddiad ar y modd rydym yn hybu lles a chadernid y gymuned a'r Cyngor ar gyfer heriau a ragwelir, yn unol â nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio."*

Yn dilyn y cyflwyniad, trafododd yr aelodau y diwygiadau y bu iddynt eu hawgrymu ar gyfer adroddiad yr Asesiad Perfformiad Panel –

- Mae pwynt 3.1 yn adroddiad yr Asesiad Perfformiad Panel yn datgan y dylai'r pwyllgor nodi a darparu adborth ar Adroddiad yr Asesiad Perfformiad Panel (Atodiad 1). Argymhellodd y pwyllgor bod rhestr fanylach yn cael ei chynnwys fel atodiad ar gyfer gwahoddedigion i sesiynau'r Panel yn ystod yr wythnos gwaith maes.
- Mewn perthynas â phwynt 4.6, y datganiad drafft ar gyfer "i ba raddau yr ydym yn derbyn y casgliadau yn yr adroddiad", awgrymodd y pwyllgor bod newid bychan yn cael ei wneud i gynnwys y gair 'croesawu'. Felly, byddai'r frawddeg fel a ganlyn, "Mae'r Cyngor yn croesawu ac yn derbyn yr adroddiad a'i gasgliadau."
- Mewn perthynas â phwynt 3.3, 'I'r Pwyllgor adolygu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd, y 'Cynllun Gweithredu', a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau y mae'n eu hystyried yn briodol (Atodiad 2)' awgrymwyd bod y swyddogion yn adolygu'r cynllun gweithredu i wneud y brawddegau'n fwy cryno a symlach.

Cafwyd awgrymiadau cyffredinol eraill hefyd, fel a ganlyn:

- Ychwanegu pumed golofn "Erbyn pryd", fel bod amserlen ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu hyn.
- Addasu'r ymateb i Argymhelliad 1 fel ei fod yn cynnwys cyfeiriad at friffiau ar gyfer unigolion (gwleidyddol a gweithredol) sy'n cynrychioli'r Cyngor ar gyrff neu ddigwyddiadau allanol fel bod modd iddynt eirioli'n effeithiol ar gyfer y Cyngor a'i genhadaeth.
- Derbyn yr adroddiad archwilio mewnol drafft ar weithio mewn partneriaeth ac adlewyrchu'r argymhellion drafft o'r adroddiad hwnnw yn y cynllun gweithredu hwn mewn perthynas ag argymhellion 5 a 6.
- Addasu'r ymateb i Argymhelliad 6 fel ei fod yn trafod defnyddio'r gwelliant hwn i gefnogi unrhyw bartneriaethau y mae'r Cyngor yn ymwneud â nhw.
- Addasu'r ymateb i Argymhellion 6, 7 ac 8 i gyfeirio at sut y bydd y Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda busnesau preifat.
- Addasu'r ymateb i gryfder 6.1 a nodwyd, pwyntiau bwled 1 a 2, fel ei fod yn cyfeirio at y cryfder hwn fel un sy'n bwysig i iechyd llywodraethu corfforaethol parhaus y sefydliad.
- Addasu'r ymateb i Argymhelliad 4, i gynnwys cyfeiriad at gynllunio olyniaeth wrth drafod cynllunio'r gweithlu.
- Addasu'r ymateb i gryfder 6.1 a nodwyd, pwynt bwled 3, fel ei fod yn cyfeirio at gamau gweithredu #4, #5, #6 a sut mae'r camau hyn yn cyfrannu at gynnal y cryfder a nodwyd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ystyried yr argymhellion* yn yr adroddiad: *3.1, 3.2 a 3.3.* Byddai swyddogion yn llunio

dogfen *i gyfleu'r argymhellion hyn* cyn cyflwyno *adroddiad yr asesiad perfformiad panel* i'r *Cabinet.*

**9 ESTYN - LLYTHYR CANLYNIAD FFURFIOL I'R AWDURDOD LLEOL**

Cyn derbyn gwahoddiad i siarad, ymddiheurodd y cadeirydd i'r swyddogion, oherwydd prinder amser, eu bod yn trefnu i'r eitem gael ei thrafod cyn gynted â phosibl.

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg adroddiad Ymweliad Estynedig Estyn ag Awdurdod Lleol 2024 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Mae'n cynnwys gwybodaeth am y broses a ddilynwyd a chanlyniad Ymweliad Estyn â'r Awdurdod Lleol ym mis Hydref 2024.

Dywedodd y Pennaeth Addysg wrth y pwyllgor, fod Richard Thomas HMI a dau gydweithiwr HMI wedi cynnal ymweliad estynedig arolygydd cyswllt Awdurdod Lleol rhwng 21 – 23 Hydref 2024, a oedd yn canolbwyntio ar anghenion dysgu ychwanegol a phresenoldeb. Fe hysbyswyd y pwyllgor nad oedd llythyrau ymweliad estynedig wedi cael eu cyhoeddi a'u bod nhw'n cael eu rhoi i gefnogi proses wella'r awdurdod. Roedd y gwasanaeth addysg nawr yn adolygu ac yn mynd i'r afael â'r ystyriaethau a awgrymwyd drwy gynlluniau gwella ein maes gwasanaeth.

I gloi, rhoddwyd sicrwydd i'r pwyllgor gan y Pennaeth Addysg y byddai rhai o'r ymarferion a gafodd eu harsylwi yn ystod yr ymweliad yn cael eu defnyddio yn y dyfodol ar ymweliadau eraill fel arferion da ac y byddent yn cael eu hannog gan awdurdodau lleol eraill.

Roedd yr aelodau'n falch iawn gyda'r adroddiad. Fe wnaethant dynnu sylw at bryderon mewn perthynas â lefelau presenoldeb. Dywedodd y Pennaeth Addysg wrthynt fod y materion presenoldeb yn rhai cenedlaethol a bod y tîm addysg yn rhoi sylw iddynt. Roedd gwaith ymgysylltu'n cael ei wneud i gael plant mewn i addysg. Roedd y mater wedi cael ei drafod mewn pwyllgor craffu blaenorol i fynd i'r afael â materion presenoldeb ac ADY, a sut y byddai'r gwasanaeth yn mynd ati i'w datrys.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi llythyr canlyniad ffurfiol Estyn yn adroddiad yr awdurdod lleol.*

**10 ER GWYBODAETH - ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO (RIPA)**

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod yr eitem er gwybodaeth yn unig.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cydnabod ac yn nodi'r Adroddiad Blynyddol Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA).*

**11 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'w hystyried.

Oherwydd prinder amser yn y cyfarfod, cytunodd y pwyllgor i'r cadeirydd drafod y rhaglen waith gyda'r swyddogion y tu hwnt i'r cyfarfod a bod unrhyw newidiadau neu addasiadau yn cael eu rhannu â holl aelodau'r pwyllgor llywodraethu ac archwilio dros e-bost.

***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar yr uchod, bod Rhaglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei nodi.*